



Eich cyf DGJ/dho
Ein cyf KW/01214/18

Dylan Rees
Cadeirydd
CYSAG
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd Y Cyngor
Llangefni
Ynys Mon - Anglesey
LL77 7TS

dgjed@anglesey.gov.uk

25 Mai 2018

Annwyl Dylan Rees

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mai ynghylch cymwysterau TGAU a Safon Uwch CBAC mewn Addysg Grefyddol.

Mewn ymateb i'ch pryderon bod cynnwys y cwrs TGAU yn ormod o faich, cymeradwywyd y cwrs gan Cymwysterau Cymru ac felly mae'n debygol bod y broblem yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw rhai ysgolion yn rhoi'r oriau dysgu dan arweiniad gofynnol i'r cwrs o 120 awr dros 2 flynedd. Er bod hyn yn fater o bryder, mae CBAC wedi ceisio dod o hyd i ffyrdd o gyfuno cynnwys y pwnc er mwyn ceisio goresgyn y broblem hon. Er enghraifft, ar safle Adnoddau Digidol CBAC, mae yna ddogfen dysgu sbiral sy'n dangos ffyrdd y gellid cyfuno'r cynnwys tebyg sydd ar gael ar draws y fanyleb.

<http://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rId=2694&langChange=cy-GB>

Rydw i'n sylweddoli pa mor rhwystredig i ddysgwyr ac athrawon yw'r oedi gyda chyhoeddi gwerslyfrau. Rydw i wedi ymrwymo i wneud popeth yn fy ngallu er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i'n hathrawon a'n dysgwyr, yn y Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd. Dyma pam rydw i wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid i ystyried yr atebion posibl i'r problemau yr ydym wedi eu hwynebu gydag adnoddau yn ystod y gyfres ddiweddaraf o ddiwygiadau i gymwysterau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw CBAC ei hun yn cyhoeddi gwerslyfrau ac nid yw'n gyfrifol am yr oedi. Cynhyrchir gwerslyfrau addysgol gan gyhoeddwr masnachol, yn yr achos hwn Illuminate Publishing, a nhw sy'n penderfynu pa deitlau i'w comisiynu ac i reoli'r amserlen gyhoeddi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru na CBAC unrhyw bŵer dros y penderfyniadau hyn. Fodd bynnag, er nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer dros y penderfyniadau masnachol a wneir gan y cwmnïau hyn, mae swyddogion yn parhau i drafod â'r tai cyhoeddi er mwyn ystyried y dewisiadau ar gyfer y dyfodol.


Fodd bynnag, mae CBAC wedi cyhoeddi cyfres o adnoddau digidol amrywiol sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho o'u gwefan er mwyn cynorthwyo athrawon sy'n darparu'r cymhwyster Safon Uwch mewn Addysg Grefyddol. Mae'r adnoddau ar gael yn <http://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceByArgs.aspx?subId=26&lvlId=1>

Mae'r ddogfen Canllawiau ar gyfer Addysgu a gyhoeddwyd yr un pryd â'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch, yn rhestru adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i athrawon hefyd, ac mae ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/qualifications/religious-studies/r-religious-studies-gce-asa-from-2016/WJEC%20GCE%20Religious%20Studies%20Guidance%20for%20Teaching.pdf?language_id=2

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg